# Hawl genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol

## Hawliau a disgwyliadau o ran dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr

| Datganiadau hawl/disgwyliad i arweinwyr | Arferion effeithiol wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad | Arferion effeithiol iawn a pharhaus wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad (yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y golofn arferion effeithiol) |
|---|---|---|
| 1. Fel arweinydd mae gen i hawl i daith dysgu proffesiynol unigol a gefnogir gan staff penodol yn yr ysgol, y lleoliad neu leol a/neu ranbarthol. | Cynllun dysgu proffesiynol ar gyfer y flwyddyn i ddod sydd:<br>• o fudd i ddysgwyr a staff yn eich ysgol neu'ch lleoliad ac sy'n bodloni eu hanghenion<br>• yn ymestyn yn gyson eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth mewn perthynas â'ch rôl bresennol<br>• yn rhoi ymreolaeth ichi ddechrau ystod o weithgareddau, ymwneud â nhw a chyfrannu atynt o fewn a thu hwnt i'ch ysgol neu'ch lleoliad | Cynllun dysgu proffesiynol bras ar gyfer y 2 i 5 mlynedd nesaf i gefnogi eich llwybr gyrfa i'r dyfodol, a fydd:<br>• o fudd i ddysgwyr a staff eraill ar draws y system ehangach (yn lleol, yn rhanbarthol a/neu yn genedlaethol)<br>• yn ymestyn eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth ar gyfer rolau arwain yn y dyfodol<br>• yn cynnig cyfleoedd i gyfrannu at gydweithio rhanbarthol a chenedlaethol a chydgefnogaeth, neu arwain gwaith o'r fath |
| 1. Fel arweinydd mae disgwyl i mi fynd ati i ddatblygu fy nhaith dysgu proffesiynol a myfyrio arni, gyda chefnogaeth staff lleol a/neu ranbarthol penodol. | • Ymrwymo i fanteisio ar eich cynllun dysgu proffesiynol a gweithgareddau cysylltiedig, a myfyrio arnynt.<br>• Ystyried eich cynnydd eich hun ar eich taith fel arweinydd gan ddefnyddio'r safonau proffesiynol i nodi anghenion dysgu proffesiynol.<br>• Defnyddio'ch Pasbort Dysgu Proffesiynol i gofnodi eich myfyrdodau. | • Defnyddio eich Pasbort Dysgu Proffesiynol i ragweld eich anghenion yn y dyfodol a sbarduno rhagor o ddysgu proffesiynol.<br>• Rhannu'ch myfyrdodau yn eich Pasbort Dysgu Proffesiynol gyda chydweithwyr ar lefel uwch yn eich ysgol neu'ch lleoliad eich hun i gefnogi datblygiad yr ysgol neu'r lleoliad fel sefydliad sy'n dysgu. |

| Datganiadau hawl/disgwyliad i arweinwyr | Arferion effeithiol wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad | Arferion effeithiol iawn a pharhaus wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad (yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y golofn arferion effeithiol) |
|---|---|---|
| | | • Rhannu'ch myfyrdodau gyda chydweithwyr a staff penodol o bob rhan o'r system ddysgu ehangach er mwyn cefnogi twf proffesiynol. |
| 2. Fel arweinydd mae gen i hawl i gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn seiliedig ar egwyddorion y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol, sy'n cynnwys cyfuniad o ddulliau a chyfleoedd i fyfyrio, ymholi a chydweithio ar gyfer dysgu. | • Mynediad at raglen dysgu proffesiynol wedi'i chynllunio ac adnoddau sy'n ysgogi.<br>• Cefnogaeth wrth arwain neu hwyluso gwaith ymholi i feysydd blaenoriaeth a nodwyd ar lefel yr ysgol neu'r lleoliad.<br>• Cydweithio pwrpasol gydag ysgolion neu leoliadau eraill yn eich ardal leol a rhanbarthol i wella'r ysgol neu'r lleoliad. | • Cyfleoedd i gyfrannu at ddarpariaeth dysgu proffesiynol i arweinwyr y tu hwnt i'r ysgol neu'r lleoliad, er enghraifft i rannu safbwyntiau ac arferion.<br>• Cyfleoedd i ymgysylltu â rhaglenni ymholi awdurdodau lleol, rhanbarthol a/neu genedlaethol.<br>• Cyfleoedd i gydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion neu leoliadau eraill ar lefel ranbarthol, cenedlaethol a/neu ryngwladol i wella'r ysgol neu'r lleoliad. |
| 2. Fel arweinydd mae disgwyl i mi:<br>• nodi a mynd ati i fanteisio ar gyfuniad priodol o weithgaredd dysgu proffesiynol<br>• annog staff i fanteisio ar gyfleoedd a sicrhau defnydd cadarnhaol o'r amser a ddyrennir ar gyfer dysgu proffesiynol, gan | • Cymryd camau rhagweithiol i fanteisio ar hyfforddiant mewn swydd a chyfleoedd dysgu proffesiynol a gynllunnir, ac arwain gwaith o'r fath, a chefnogi eraill i fanteisio arnynt hefyd.<br>• Cymryd camau rhagweithiol i gydweithio ag eraill yn eich ysgol, eich lleoliad neu'ch clwstwr eich hun i hyrwyddo'r arfer o ddysgu oddi wrth eich gilydd, ac arwain gwaith o'r fath. | • Bod yn ymwybodol o weithgareddau dysgu proffesiynol ehangach a sicrhau defnydd priodol ohonynt.<br>• Cymryd rhan mewn sesiynau dysgu proffesiynol ar y cyd neu weithgarwch hyfforddiant mewn swydd, ar draws rhwydwaith o ysgolion neu leoliadau, a'u harwain.<br>• Sicrhau bod gwerthuso dysgu proffesiynol yn rhan annatod o |

| Datganiadau hawl/disgwyliad i arweinwyr | Arferion effeithiol wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad | Arferion effeithiol iawn a pharhaus wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad (yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y golofn arferion effeithiol) |
|---|---|---|
| gynnwys amser hyfforddiant mewn swydd | • Defnyddio eich Pasbort Dysgu Proffesiynol i fyfyrio ar eich dysgu proffesiynol mewn perthynas â'r safonau proffesiynol a mynd ati i ymholi er mwyn gwella arferion ar draws yr ysgol neu'r lleoliad. | brosesau ysgol neu leoliad. |
| 3. Fel arweinydd mae gen i hawl i:<br>• arwain a gweithio mewn ysgol neu leoliad sy'n ystyried ei hun yn sefydliad sy'n dysgu (neu arwain tîm sy'n cyfrannu at yr ysgol neu'r lleoliad fel sefydliad sy'n dysgu)<br>• arwain a gweithio mewn ysgol neu leoliad lle mae'r defnydd o'r safonau proffesiynol yn rhan annatod o bob agwedd ar ddatblygiad proffesiynol | • Cael cefnogaeth gan y corff llywodraethu a chan gydweithwyr lleol neu ranbarthol penodol i arwain ysgol neu leoliad sy'n datblygu fel sefydliad sy'n dysgu drwy ddefnyddio arolwg ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu mewn ffordd fyfyriol<br>• Cael cymorth i ddefnyddio'r safonau proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth i:<br>  ○ fyfyrio ar eich anghenion dysgu proffesiynol a'u cofnodi<br>  ○ llywio eich cynnydd o ran eich taith dysgu proffesiynol unigol<br>  ○ llywio cynnydd yr ysgol neu'r lleoliad yn ehangach | • Mae'r arweinwyr a'r corff llywodraethu yn deall rôl dysgu proffesiynol o fewn sefydliad sy'n dysgu, ac yn creu ethos ac amgylchedd lle rhoddir gwerth ar ddysgu proffesiynol a lle caiff yr holl staff gyfleoedd i fanteisio ar hyn.<br>• Cydgyfrifoldeb dros ddatblygu'n barhaus fel sefydliad sy'n dysgu drwy gynllun datblygu ysgol sy'n seiliedig ar ddefnydd hunanfeirniadol o hunanwerthuso, ymholi ac arolwg ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.<br>• Defnyddio safonau proffesiynol fel sail i gydweithio ar draws y clwstwr a chydag ysgolion neu leoliadau eraill er mwyn hyrwyddo gwelliant ac arloesedd pellach. |

| Datganiadau hawl/disgwyliad i arweinwyr | Arferion effeithiol wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad | Arferion effeithiol iawn a pharhaus wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad (yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y golofn arferion effeithiol) |
|---|---|---|
| 3. Fel arweinydd mae disgwyl i mi ystyried yn rheolaidd:<br>• fy rôl fel arweinydd o ran cefnogi'r ysgol neu'r lleoliad fel sefydliad sy'n dysgu<br>• fy rôl o ran arwain dysgu proffesiynol a sicrhau bod defnydd o'r safonau proffesiynol yn rhan annatod o bob agwedd ar ddatblygiad proffesiynol i bawb | • Arwain a/neu gefnogi'r gwaith o werthuso a datblygu'r ysgol neu'r lleoliad fel sefydliad sy'n dysgu drwy arolwg ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.<br>• Arwain a/neu gyfrannu at y defnydd o brosesau'r ysgol neu'r lleoliad sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r safonau proffesiynol er mwyn cefnogi'r arfer o fyfyrio a datblygu.<br>• Mynd ati i annog a chefnogi eraill i ddefnyddio'r safonau er mwyn nodi eu hanghenion dysgu proffesiynol a fydd yn llywio eu taith unigol. | • Chwarae rhan flaenllaw mewn trafodaethau rheolaidd ar sail arolwg ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu a hunanwerthuso er mwyn ystyried sut gall yr ysgol/lleoliad wella fel sefydliad sy'n dysgu.<br>• Herio'ch arferion eich hun mewn perthynas ag arferion effeithiol iawn a pharhaus continwwm y safonau proffesiynol, ac annog eraill i wneud yr un fath.<br>• Mynd ati gyda'ch cydweithwyr, o fewn neu ar draws ysgolion neu leoliadau, i fyfyrio ar y safonau er mwyn nodi'ch anghenion unigol neu'ch anghenion fel grŵp, a chydweithio i wella arferion. |